WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu Da wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau mawr mewn gwasanaethau – **Cyngor Sir Ddinbych**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 249A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gwilym Bury a Non Jenkins dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor fframwaith clir a threfniadau llywodraethu cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau mawr mewn gwasanaethau ond nid yw'r broses o werthuso effaith y newidiadau mewn gwasanaethau yn amserol bob tro.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynnig ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor fframwaith clir a threfniadau llywodraethu cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau mawr mewn gwasanaethau ond nid yw'r broses o werthuso effaith y newidiadau mewn gwasanaethau yn amserol bob tro 6

- Mae gweledigaeth a strategaeth y Cyngor yn darparu fframwaith clir ar gyfer llunio a gweithredu newidiadau mawr mewn gwasanaethau 6
- Mae'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer cynghorwyr a swyddogion sy'n ystyried newidiadau mawr mewn gwasanaethau yn glir a dealladwy 8
- Mae'r her gan gynghorwyr i gynigion cyflenwi gwasanaethau newydd yn gadarn 9
- Mae'r Cyngor yn mynd ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau ac mae wedi ymrwymo i gynnwys mwy o'r trigolion er mwyn adlewyrchu amrywiaeth Sir Ddinbych yn well 10
- Mae'r Cyngor yn monitro perfformiad gwasanaethau ac yn gwerthuso effaith newidiadau mewn gwasanaethau unigol, er nad yw hyn yn amserol bob tro 11
- Mae'r Cyngor yn gweithredu'n rhagweithiol i adolygu a gwella effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau 12

# Adroddiad manwl

## Crynodeb

1 Mae llywodraethu yn ymwneud â'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn, mewn ffordd amserol, gynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli cyrff cyhoeddus, ac a ddefnyddir ganddynt i fod yn atebol i'w cymunedau, ymgysylltu â'u cymunedau a, lle y bo'n briodol, arwain eu cymunedau.[1]

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol ar gyfer gofalu'n effeithiol am arian cyhoeddus a pharhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon a dibynadwy. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a setliadau llai ar gyfer llywodraeth leol yn ogystal â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu bod pob cyngor yn debygol o barhau i fod angen gwneud penderfyniadau ynglŷn â ffurf a lefel y ddarpariaeth gwasanaethau i'r dyfodol. Mae'n briodol i gyrff cyhoeddus geisio gwella'n barhaus. Gwneir newidiadau bach, cynyddol i'r gwasanaethau a gyflenwir ar lefel reolaethol a gweithredol fel rhan o'r trefniadau gwneud penderfyniadau arferol, gweithredol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da ochr yn ochr â chynllunio effeithiol a phrosesau trylwyr yn hanfodol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau mawr mewn gwasanaethau. Mae penderfyniadau o'r fath yn aml yn ddadleuol, yn ennyn cryn ddiddordeb yn lleol a gallant gael effeithiau sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau yr effeithir arnynt.

3 O fis Ebrill 2016 ymlaen mae'n ofynnol i gynghorau gydymffurfio â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (y Ddeddf Llesiant) a'r Canllaw Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllaw Statudol yn datgan: 'Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.[2] Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd trefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn cyrraedd y nodau llesiant.

[1] CIPFA/SOLACE, **Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007**

[2] Llywodraeth Cymru, **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

4 Mae’r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau mewn gwasanaethau. Rydym yn diffinio newid mewn gwasanaethau fel unrhyw newid mawr yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi a/neu unrhyw newid mawr ym mhrofiad defnyddwyr gwasanaethau allanol o wasanaethau. Gallai newidiadau gynnwys y ffordd y mae’r gwasanaeth yn cael ei gyflenwi, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth neu gost y gwasanaeth.

5 Gan gymryd fframwaith diwygiedig y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) **Delivering good governance in local government** fel safon briodol, mae’r adolygiad hwn yn darparu i’r Cyngor linell sylfaen i’w defnyddio i gynllunio ar gyfer gwella ymhellach. Yn yr asesiad hwn, a wnaed yn ystod y cyfnod o fis Medi i fis Tachwedd 2016, i hysbysu ein hasesiad o drefniant cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu a gwneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau mewn gwasanaethau, edrychom ar agweddau ar y trefniadau gwneud penderfyniadau mewn amrywiol gynigion i wneud newidiadau mawr mewn gwasanaethau. Roedd yr esiamplau o newidiadau mewn gwasanaethau yr edrychom arnynt yn cynnwys:

- gwasanaeth refeniw a budd-daliadau;
- codi ffi am gasglu gwastraff gerddi; ac
- adolygiad o’r gwasanaeth hawliau lles.

6 Ni wnaethom edrych yn fanwl ar bob un o’r penderfyniadau unigol i newid gwasanaethau, ond yn hytrach fe wnaethom eu defnyddio fel enghreifftiau i droi atynt a’n hysbysu o sut mae’r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau ynglŷn â newid gwasanaethau. Yn ogystal, arsylwom nifer o heriau blynyddol yn y gwasanaethau mewnol lle roedd uwch swyddogion a chynghorwyr arweiniol yn adolygu effaith nifer o newidiadau mewn gwasanaethau.

7 Yn yr adolygiad hwn, deuthum i’r casgliad **bod gan y Cyngor fframwaith clir a threfniadau llywodraethu cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau mawr mewn gwasanaethau ond nad yw’r broses o werthuso effaith y newidiadau mewn gwasanaethau yn amserol bob tro**.

# Cynnig ar gyfer gwella

## Arddangosyn 1: cynnig ar gyfer gwella

| Cynnig ar gyfer gwella | |
|---|---|
| P1 | Gellid gwella trefniadau llywodraethu’r Cyngor drwy fonitro amserol cyson effaith pob newid mawr mewn gwasanaethau. |

# Mae gan y Cyngor fframwaith clir a threfniadau llywodraethu cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau mawr mewn gwasanaethau ond nid yw'r broses o werthuso effaith y newidiadau mewn gwasanaethau yn amserol bob tro

## Mae gweledigaeth a strategaeth y Cyngor yn darparu fframwaith clir ar gyfer llunio a gweithredu newidiadau mawr mewn gwasanaethau

8 Mae gan y Cyngor weledigaeth a strategaeth glir ar gyfer cynigion i newid gwasanaethau wedi'u cyplysu â'i flaenoriaethau clir a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol 2012-2017 a'i amcanion mwyaf diweddar ar gyfer gwella. Sef:

- datblygu'r economi leol
- gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion
- gwella'n ffyrdd
- mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu a gallant fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl
- strydoedd glân a thaclus
- sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael
- moderneiddio'r cyngor i sicrhau arbedion a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid

9 Bydd angen i'r holl gynigion gan swyddogion i newid gwasanaethau ddangos eu perthnasedd i amcanion cynllun corfforaethol y Cyngor a sut bydd gweithredu'r newidiadau yn cyfrannu at y canlyniadau a nodir yn y cynllun. Mae gan y newidiadau mewn gwasanaethau yn Sir Ddinbych a archwiliwyd gennym gysylltiadau clir â'r amcan yn y cynllun corfforaethol o 'foderneiddio'r Cyngor i sicrhau arbedion a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid'.

10 Mae’r Cyngor yn gweithredu nifer o ddulliau amgen o gyflenwi gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau partneriaeth gyda’r sector preifat a gwasanaethau a rennir gyda chynghorau lleol eraill a’r trydydd sector, megis cynllun dyrannu tai cyffredin gyda chymdeithasau tai lleol. Yn y newidiadau mewn gwasanaethau a archwiliwyd gennym, megis trosglwyddo staff refeniw a budd-daliadau yn 2015 i bartneriaeth newydd gyda chwmni preifat, ceir achos busnes cynhwysfawr sy’n disgrifio sut mae’r trosglwyddiad yn dangos gwerth am arian, sut byddai’n creu incwm ychwanegol, ac yn cynnal y perfformiad presennol gyda llai o adnoddau. Adroddasom yn ein hadroddiad gwella blynyddol diwethaf fod y Cyngor wedi adolygu ystod eang o opsiynau posibl ar gyfer darparwyr gwasanaethau hamdden amgen, wedi cynnal 14 o weithdai i randdeiliaid ac wedi cwblhau dadansoddiad manwl o gost a budd, gan gynnwys cymariaethau â’r farchnad leol. Darparodd y gwaith hwn i’r Cyngor wybodaeth fanwl am berfformiad a boddhad cwsmeriaid ar gyfer pob un o’i gyfleusterau hamdden. Mae’r gwaith hefyd wedi caniatáu iddo ddatblygu cynlluniau gweithredol manwl ar gyfer cyfleusterau hamdden unigol er mwyn cyflawni ei nod o sicrhau bod ei wasanaethau yn hunan-ariannu ac yn ganolog i wella iechyd trigolion Sir Ddinbych.

11 Mae’r Cyngor yn adolygu ei drefniadau llywodraethu ar gyfer gwneud newidiadau mewn gwasanaethau er mwyn rhoi sylw i ofynion y Ddeddf Llesiant. Er enghraifft, mae’r Cyngor wedi adolygu ei gyfansoddiad a’i fformat adrodd ar gyfer papurau pwyllgorau. Yn ychwanegol mae wedi adolygu systemau i adlewyrchu canllawiau Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol mewn archwilio mewnol, cynllunio gweithlu, rheoli asedau, ymgysylltu â’r cyhoedd, cynllunio ariannol a busnes. Mae wrthi’n datblygu pecyn cymorth ar-lein Asesu Effaith ar Lesiant i’w gynorthwyo i roi sylw i ofynion y Ddeddf Llesiant, gan gynnwys asesiad o effaith cynigion i newid gwasanaethau, ond mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud gwaith pellach ar y pecyn cymorth hwn o hyd a’i wella.

12 Roedd y Cyngor wedi ymgynghori â’r cyhoedd ynglŷn â’r newidiadau mawr mewn gwasanaethau yr edrychom arnynt, gyda’r Cyngor yn gwahodd sylwadau gan drigolion, staff, cynghorau tref a chymuned a rhanddeiliaid eraill. Yn ogystal â dulliau mwy traddodiadol megis arolygon o’r trigolion a chyfarfodydd cyhoeddus, mae’r Cyngor yn ceisio ymgysylltu drwy arolygon ar-lein a chyfres o gyfarfodydd i ddinasyddion (sgyrsiau’r sir). Mae’r Cyngor hefyd yn ymgysylltu drwy ddeialog â dinasyddion am faterion penodol megis sgwrs y sir ar ‘gynllunio ar gyfer y dyfodol’ sydd â’r nod o siapio syniadau am wneud newidiadau mewn gwasanaethau i’r dyfodol gyda’r agenda wedi’i gosod i gasglu barn dinasyddion am:

- beth sy’n gweithio’n dda i chi yn eich cymunedau lleol?;
- eich dyheadau ar gyfer y dyfodol;
- sut allwn adeiladau ar beth sy’n gweithio’n dda rŵan a sut i wireddu hyn?; a
- beth all fod yn rhwystr i sicrhau fod hyn yn digwydd.

13 Yn ogystal â sgyrsiau'r sir, mae'r Cyngor wedi sefydlu chwe Grŵp Gweithredu i Aelodau (MAGs); gyda phob un ohonynt yn cwmpasu grwp bach o wardiau wedi'u cyd-leoli. Mae'r rhain yn gweithredu ar lefel leol i roi sylw i faterion lleol penodol. Dyrannwyd cyllid i'r chwe MAG fel bod cynghorwyr lleol yn gallu neilltuo arian ar gyfer prosiectau penodol y mae dinasyddion yn eu cynnig yn y wardiau etholiadol. Canmolodd cynghorwyr a swyddogion y Cyngor y dull gweithredu hwn yn ystod ein hadolygiad.

## Mae'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer cynghorwyr a swyddogion sy'n ystyried newidiadau mawr mewn gwasanaethau yn glir a dealladwy

14 Mae'n ymddangos bod trefniadau presennol y Cyngor yn gweithio'n dda pan ystyriant newid mewn gwasanaethau. Mae cyfran gymharol fechan o waith y pwyllgorau craffu yn digwydd ar ffurf 'craffu cyn gwneud penderfyniad' lle mae pwyllgorau yn ystyried materion cyn iddynt gyrraedd y Cabinet i benderfynu arnynt. Fodd bynnag, mae nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen craffu, megis y grŵp gorchwyl a gorffen Torri'r Gôt yn ôl yn Brethyn, yn ystyried arbedion effeithlonrwydd a newidiadau eraill mewn gwasanaethau. Mae defnyddio'r broses 'craffu cyn gwneud penderfyniad' yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod y penderfyniadau yn cynnwys cynghorwyr yn amserol er mwyn hwyluso a dylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau.

15 Mae rolau a chyfrifoldebau'r swyddog monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd ac Adnoddau Dynol, o safbwynt gwneud newidiadau mawr mewn gwasanaethau, yn cael eu datgan yn glir yn y cyfansoddiad. Diweddarodd y Cyngor ei gyfansoddiad ym mis Gorffennaf 2016 ac mae rolau cynghorwyr a swyddogion wedi'u disgrifio'n glir a chyfeiriant at ganllawiau CIPFA a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

16 Er 2015 mae fframwaith corfforaethol wedi'i sefydlu ar gyfer ystyried darparwyr gwasanaethau amgen a threfniadau monitro a llywodraethu dilynol ac roedd y newidiadau perthnasol mewn gwasanaethau yr edrychom arnynt yn dilyn y fframwaith hwn. Mae'r fframwaith yn datgan yn glir bod gofyn cael canllawiau perthnasol ar waith, y trefniadau ar gyfer ystyried a gweithredu newidiadau, swyddogaethau'r rheini ynghlwm, y trefniadau monitro a llywodraethu, yn ogystal â'r elfennau cyfreithiol angenrheidiol a'r lefelau monitro lleiaf sy'n ofynnol yn ddibynnol ar werth y gwasanaethau a ddarperir.

## Mae'r her gan gynghorwyr i gynigion ac opsiynau cyflenwi gwasanaethau newydd yn gadarn

17 Mae'r newidiadau mewn gwasanaethau a archwiliwyd gennym wedi cael adolygiadau systematig cadarn o'r opsiynau o ran dulliau amgen o gyflenwi gwasanaethau. Roedd gan bob un o'r newidiadau mewn gwasanaethau a archwiliwyd gennym achosion busnes cynhwysfawr a oedd yn trafod amrywiaeth o opsiynau ynghyd â chostau cysylltiedig unrhyw gynigion amgen, a chynhwysant asesiad gwybodus o effaith ddisgwyliedig gwahanol ddewisiadau ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn ychwanegol at waith grwpiau gorchwyl a gorffen y cynghorwyr ar newidiadau mewn gwasanaethau mae trefniadau herio gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i ddarparu i gynghorwyr a rheolwyr ddatganiadau sefyllfa cynhwysfawr a manwl sy'n defnyddio'r data perfformiad sydd ar gael a'r cynnydd ar brosiectau mawr. Mae'r uwch staff a'r cynghorwyr wedyn yn herio datganiad sefyllfa'r gwasanaeth ar newidiadau mewn gwasanaethau ac yn galluogi swyddogion i osod perfformiad gwasanaethau yng nghyd-destun risgiau hysbys, a chulhau ffocws y cyfarfod herio dilynol ar y materion hynny sydd fwyaf perthnasol.

18 Mae'r pwyllgor craffu perthnasol, ac yna'r Cabinet, yn adolygu pob penderfyniad ynglŷn â newidiadau mawr mewn gwasanaethau er bod newidiadau mwy dadleuol mewn gwasanaethau megis newidiadau mewn cartrefi preswyl yn cael eu trafod yn y Cyngor llawn. Mae'r newidiadau arfaethedig yng ngwasanaethau cartrefi preswyl wedi cael eu haddasu yn dilyn cynigion gan y pwyllgor craffu a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.

19 Caiff pob penderfyniad ynglŷn â newid gwasanaethau ei gofnodi'n llawn ac yn gywir mewn modd amserol ac mae cofnodion ysgrifenedig ar gael ar wefan y Cyngor. Nid yw cyfarfodydd Cabinet na phwyllgorau craffu'r Cyngor yn cael eu gwe-ddarlledu ar hyn o bryd ond mae'r Cyngor yn bwriadu ystyried cyflwyno hyn fel rhan o'r gwaith o drawsnewid siambr y Cyngor a phrynu offer gwe-ddarlledu newydd.

## Mae'r Cyngor yn mynd ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau ac mae wedi ymrwymo i gynnwys mwy o'r trigolion er mwyn adlewyrchu amrywiaeth Sir Ddinbych yn well

20 Roedd y newidiadau mawr mewn gwasanaethau a archwiliwyd gennym yn dangos bod y Cyngor wedi treulio cryn dipyn o amser ar y gwaith ymgysylltu, gan ganolbwyntio ar drigolion, rhanddeiliaid, staff a chynghorwyr. Fe wnaeth hyn eu helpu i nodi'r blaenoriaethau i roi sylw i anghenion a phryderon cymunedau. Ymysg y gweithgareddau allweddol a wnaeth y Cyngor fel rhan o'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu ac a ddylanwadodd ar y newidiadau mewn gwasanaethau yr oedd:

- arolwg chwe-misol o drigolion;
- gweithdai gyda defnyddwyr gwasanaethau;
- ymgynghori â rhanddeiliaid allanol;
- gweithdai i'r staff; a
- gweithdai gyda'r cynghorwyr i ystyried y casgliadau yn sgil yr ymgysylltu.

21 Mae ymgynghoriadau ar newidiadau mewn gwasanaethau yn cael eu hysbysebu'n dda gan y Cyngor, ar ei wefan a drwy ystod o ddulliau eraill i ennyn cyhoeddusrwydd yn Sir Ddinbych. Os oedd potensial i'r newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau fod yn ddadleuol, fel newidiadau mewn gwasanaethau gofal mewnol, bu'r Cyngor, dros nifer o fisoedd, yn cynnal nifer fawr o gyfarfodydd cyhoeddus a hysbysebwyd yn eang gyda defnyddwyr gwasanaethau, undebau llafur, staff a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae agendâu a phapurau am newidiadau mewn gwasanaethau ar gael yn hawdd ar wefan y Cyngor.

22 Ceir tudalen ymgynghori ar wefan y Cyngor sy'n esbonio beth sy'n digwydd gydag ymgynghoriadau cyfredol ac ymgynghoriadau sydd wedi cau. Mae cylchlythyr y Cyngor i'r preswylwyr **Llais Sir Ddinbych** yn adrodd yn ôl ar ymarferion ymgynghori ac ar sut mae penderfyniadau ynglŷn â newidiadau mewn gwasanaethau yn cael eu gwneud.

23 Er bod gweithgaredd ymgysylltu'r Cyngor ar newidiadau mewn gwasanaethau, megis gwasanaethau hamdden neu wasanaethau gofal mewnol, o safon uchel ni allai dim un newid mewn gwasanaeth a archwiliwyd gennym ddangos yn gynhwysfawr yr ymgysylltwyd â phobl o blith yr holl nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2011.

24 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnwys mwy o'r trigolion er mwyn adlewyrchu amrywiaeth Sir Ddinbych yn well. Yn 2016 cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2016-2018. Mae'r cynllun cydraddoldeb newydd yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i gyrraedd saith nod y Ddeddf Llesiant gan gynnwys y nod cydraddoldeb. O'r herwydd, bydd Fforwm Cydraddoldeb Sir Ddinbych yn cael ei sefydlu gyda chyfranogwyr o bob un o'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Drwy'r fforwm, bydd y Cyngor yn datblygu asesiadau newydd a gwell o'r effaith ar gydraddoldeb.

## Mae’r Cyngor yn monitro perfformiad gwasanaethau ac yn gwerthuso effaith newidiadau mewn gwasanaethau unigol, er nad yw hyn yn amserol bob tro

25 Mae cyfansoddiad y Cyngor a ddiweddarwyd yn 2016 yn nodi pwy sy’n gyfrifol am fonitro effaith newidiadau mewn gwasanaethau. Roedd y newidiadau mewn gwasanaethau yr edrychom arnynt yn aml yn cael eu monitro’n fewnol drwy Fwrdd Moderneiddio’r Cyngor sy’n cynnwys uwch swyddogion a chynghorwyr.

26 Mae’r broses o gynllunio trefniadau pontio ar gyfer newidiadau mewn gwasanaethau yn glir, ac nid oes tystiolaeth yn y newidiadau mewn gwasanaethau yr edrychom arnynt, fod gwasanaethau i’r cyhoedd wedi dirywio yn ystod y cyfnod pontio. Er enghraifft, ni welwyd dim oedi mewn taliadau budd-dal i’r cyhoedd oherwydd y broses o drosglwyddo’r gwasanaeth refeniw a budd-daliadau. Fe wnaeth y newidiadau mewn gwasanaethau yr edrychom arnynt gyflawni’r lefelau arbedion disgwyliedig, megis cyflwyno taliadau am gasglu gwastraff gardd.

27 Roedd achosion busnes yr holl newidiadau mewn gwasanaethau yr edrychom arnynt yn nodi’r gofyn am drefniadau monitro drwy graffu a drwy gael eu hadolygu fel arfer gan yr archwilwyr mewnol. Mae’r trefniadau sydd ar gael i’r cyhoedd adrodd am effaith y newidiadau mewn gwasanaethau yn dibynnu ar y broses graffu. Fodd bynnag, mewn o leiaf un achos ac ar awgrymiad y cynghorwyr, ni fu unrhyw graffu am gyfnod sylweddol ar ôl gweithredu’r newid. Ym mis Ebrill 2015 gweithredodd y Cyngor y broses o drosglwyddo’r staff refeniw a budd-daliadau i bartneriaeth newydd gyda chwmni preifat. Roedd y Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad craffu ar effaith y newidiadau ar ôl 18 mis. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd yr adolygiad hwn tan 2017, rhyw ddwy flynedd ar ôl y newid. Gallai ymgymryd â’r adolygiad mor hwyr a hyn guddio materion ac atal neu ohirio’r Cyngor rhag gweithredu i ymdrin â’r problemau a nodwyd.

28 Mae adroddiadau archwilio mewnol ar newid mewn gwasanaethau a oedd yn cyfeirio at ychydig neu ddim sicrwydd yn cael eu hystyried yn gyhoeddus gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae’r Cyngor yn awr yn cynyddu’r cyfle i’r holl adroddiadau archwilio mewnol fynd drwy broses graffu gyhoeddus drwy ddarparu i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol grynodeb byr o ganfyddiadau’r holl adroddiadau.

## Mae'r Cyngor yn gweithredu'n rhagweithiol i adolygu a gwella effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau

29 Mae adolygiad y Cyngor o'r Datganiad llywodraethu Blynyddol yn gynhwysfawr ac yn adolygu'r trefniadau gwneud penderfyniadau yng ngoleuni profiad ac arferion da argymelledig. Mae Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn chwarae rhan briodol i sicrhau bod prosesau addas ar waith ar gyfer canfod a rheoli risgiau er mwyn ei gynorthwyo yn ei waith o lunio'r datganiad llywodraethu blynyddol. Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol yn datgan yn glir sut caiff risgiau eu rheoli a'u monitro, a cheir prosesau i gofnodi risgiau derbyniol newydd. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i roi sylw i unrhyw wendidau a welir yn y trefniadau gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, o ganlyniad i wendidau a welodd yr archwilwyr mewnol yn y broses o gaffael TGCh, caiff rôl y gwasanaeth TGCh yn y broses gaffael yn awr ei nodi'n glir yng nghyfansoddiad y Cyngor.

30 Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd rheoli risg ac mae Cofrestr Risg Gorfforaethol gyda chanllawiau ategol ar gael. Caiff risgiau allweddol gan gynnwys newid mawr mewn gwasanaethau, megis cynigion ynglŷn â chartrefi preswyl, eu nodi a'u hasesu fel risg uchel, ganolig neu isel. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth Rheoli Risg a Chofrestr Risg Gorfforaethol ac mae'n eu hystyried wrth ddyrannu adnoddau. Mae'r Cabinet wedi cytuno y dylai ystyried diweddariadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol bob chwe mis. Mae meysydd gwasanaethau unigol yn llunio eu cofrestri risg eu hunain, ac maent yn ystyried y rhain ochr yn ochr â'u cynlluniau gwella gwasanaethau.

31 At hynny, ystyrir bod rheoli risg yn flaenoriaeth uchel ym mhob maes gwasanaeth. Mae'r broses ar gyfer monitro sut mae pob maes gwasanaeth yn rheoli ei risgiau yn gyson ac mae'r trefniadau atebolrwydd yn glir. Caiff risgiau eu rheoli'n dda ar brosiectau unigol mawr a chânt eu rheoli'n uniongyrchol gan bennaeth y gwasanaeth os ystyrir y ceir risg gorfforaethol fwy ychwanegol. Caiff pob penderfyniad ei gofnodi, gan gynnwys os penderfynir peidio â chynnwys risgiau lefel isel yn y cofrestri.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

DRAFT